Pecyn Dogfennau

Mark James LLM, DPA, DCA
Prif Weithredwr,
*Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

**DYDD IAU, 8 CHWEFROR 2018**

**AT: HOLL AELODAU'R PWYLLGOR TRWYDDEDU**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **PWYLLGOR TRWYDDEDU** A GYNHELIR YN **Y SIAMBR, NEUADD Y SIR** AM **10.00 AM, DYDD LLUN, 19EG CHWEFROR, 2018** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA ATODEDIG.

*Mark James* DYB

**PRIF WEITHREDWR**

AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Kevin Thomas** |
| **Ffôn (Llinell Uniongyrchol):** | **01267 224027** |
| **E-bost:** | **kjthomas@sirgar.gov.uk** |
| **Cyf:** | **AD016-001** |

# PWYLLGOR TRWYDDEDU
## 14 AELOD

**Y GRŴP PLAID CYMRU – 7 AELOD**

1. Y Cynghorydd Mansel Charles
2. Y Cynghorydd Alun Davies
3. Y Cynghorydd Ann Davies
4. Y Cynghorydd Tyssul Evans
5. Y Cynghorydd Ken Howell
6. Y Cynghorydd Eirwyn Williams
7. Y Cynghorydd D.E. Williams [Is-Gadeirydd]

**Y GRŴP LLAFUR – 4 AELOD**

1. Y Cynghorydd Fozia Akhtar
2. Y Cynghorydd Penny Edwards
3. Y Cynghorydd Amanda Fox
4. Y Cynghorydd John Prosser

**Y GRŴP ANNIBYNNOL – 3 AELOD**

1. Y Cynghorydd Rob Evans
2. Y Cynghorydd Irfon Jones
3. Y Cynghorydd Edward Thomas [Cadeirydd]

***DYLAI AELODAU FOD YN YMWYBODOL NA CHANIATEIR IDDYNT OFYN I AELODAU O FEWN EU GRWPIAU EU HUNAIN I'W CYNRYCHIOLI MEWN CYFARFODYDD O'R PWYLLGOR YMA***

# AGENDA


| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB** | |
| **2.** | **DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.** | |
| **3.** | **MR DAFYDD WILLIAM RHYS EVANS - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT** | 5 - 8 |
| **4.** | **MR RUSSELL ALAN HOWE - TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT** | 9 - 12 |
| **5.** | **MISS CLAIRE LOUISE WHITEHEAD - CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT** | 13 - 16 |
| **6.** | **MR JASON OWEN JENKINS - TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT** | 17 - 20 |
| **7.** | **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD YR IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU "B" A GYNHALIWYD AR 29AIN TACHWEDD, 2017.** | 21 - 26 |
| **8.** | **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD YR IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU "B" A GYNHALIWYD AR 25AIN IONAWR, 2018** | 27 - 30 |
| **9.** | **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD YR IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU "A" A GYNHALIWYD AR 12FED RHAGFYR, 2017.** | 31 - 34 |
| **10.** | **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 7FED RHAGFYR, 2017.** | 35 - 38 |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# PWYLLGOR TRWYDDEDU
19/02/18

## PWNC A PHWRPAS
**Mr Dafydd William Rhys Evans**
**Cais am Drwydded Yrru Ddeuol Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat**

## ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

**Caniatáu cais Mr Evans gyda rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

## RHESYMAU:

**Canllawiau'r Cyngor.**

| | |
|---|---|
| Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Craffu perthnasol | Amherthnasol |
| Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad | Amherthnasol |
| Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad | Amherthnasol |

**Aelod y Bwrdd Gweithredol sy'n Deiliad y Portfolio: Cynghorydd P.M. Hughes**

| Y Gyfarwyddiaeth: Cymunedau | Swydd: | Rhifau Ffôn: Cyfeiriadau E-bost: |
|---|---|---|
| Enw Pennaeth y Gwasanaeth<br>Mr Jonathan Morgan | Pennaeth Dros Dro Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel | 01554 899285<br>jmorgan@sirgar.gov.uk |
| Awdur yr Adroddiad<br>Justin Power | Uwch-swyddog Trwyddedu | 01267 228932<br>JHPower@sirgar.gov.uk |

# EXECUTIVE SUMMARY
## Licensing Committee
## 19/02/18

| SUBJECT |
| --- |
| **Mr Dafydd William Rhys Evans** |
| **Application for the Grant of a Hackney Carriage/Private Hire Dual Drivers Licence** |

| | |
| --- | --- |
| **To consider an application from Mr Dafydd William Rhys Evans of 3 Maesybedw, Boncath for the grant of a hackney carriage/private hire dual drivers licence.** | |
| **DETAILED REPORT ATTACHED ?** | **NO** |



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

## IMPLICATIONS

| |
|---|
| **I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :** |
| **Signed: Mr Jonathan Morgan** **Acting Head of Homes and Safer Communities** |

| Policy and Crime & Disorder | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Organisational Development | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

## CONSULTATIONS

| |
|---|
| **I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below** |
| **Signed: Mr Jonathan Morgan** **Acting Head of Homes and Safer Communities** |

**1.Local Member(s):**
**No local member involvement and therefore no consultation necessary.**
**2.Community / Town Council:**
**No Community / Town Council involvement and therefore no consultation necessary.**
**3.Relevant Partners:**
**No Police and Fire Authority involvement and therefore no consultation necessary.**
**4.Staff Side Representatives and other Organisations:**
**There are no other organisations involved and therefore no consultation necessary.**

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**
**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THESE ARE DETAILED BELOW**

| Title of Document | File Ref No. | Locations that the papers are available for public inspection |
|---|---|---|
| Application Form and File Contents. | DD10762 | Licensing Section, 3 Spilman Street, Carmarthen |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# PWYLLGOR TRWYDDEDU
## 19/02/18

**PWNC A PHWRPAS**
**Mr Russell Alan Howe**
**Trwydded Yrru Ddeuol Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat**

**ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**

Bod Mr Howe yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**RHESYMAU:**

Canllawiau'r Cyngor.

| | |
|---|---|
| Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Craffu perthnasol | Amherthnasol |
| Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad | Amherthnasol |
| Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad | Amherthnasol |

Aelod y Bwrdd Gweithredol sy'n Deiliad y Portfolio: Cynghorydd P.M. Hughes

| Y Gyfarwyddiaeth: Cymunedau | Swydd: | Rhifau Ffôn: Cyfeiriadau E-bost: |
|---|---|---|
| Enw Pennaeth y Gwasanaeth Mr Jonathan Morgan | Pennaeth Dros Dro Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel | 01554 899285 jmorgan@sirgar.gov.uk |
| Awdur yr Adroddiad Justin Power | Uwch-swyddog Trwyddedu | 01267 228932 JHPower@sirgar.gov.uk |

# EXECUTIVE SUMMARY
## Licensing Committee
## 19/02/18

| |
|---|
| **SUBJECT**<br>**Mr Russell Alan Howe**<br>**Hackney Carriage/Private Hire Dual Drivers Licence** |

**Mr Russell Alan Howe of 19 Ystrad Drive, Johnstown, Carmarthen is a licensed hackney carriage/private hire dual driver with this authority.**

| | |
|---|---|
| **DETAILED REPORT ATTACHED ?** | **NO** |



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

# IMPLICATIONS

| |
|---|
| **I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :**<br><br>**Signed: Mr Jonathan Morgan** **Acting Head of Homes and Safer Communities** |

| Policy and Crime & Disorder | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Organisational Development | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

# CONSULTATIONS

| |
|---|
| **I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below**<br><br>**Signed: Mr Jonathan Morgan** **Acting Head of Homes and Safer Communities** |

**1.Local Member(s):**
**No local member involvement and therefore no consultation necessary.**
**2.Community / Town Council:**
**No Community / Town Council involvement and therefore no consultation necessary.**
**3.Relevant Partners:**
**No Police and Fire Authority involvement and therefore no consultation necessary.**
**4.Staff Side Representatives and other Organisations:**
**There are no other organisations involved and therefore no consultation necessary.**

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**
**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THESE ARE DETAILED BELOW**

| Title of Document | File Ref No. | Locations that the papers are available for public inspection |
|---|---|---|
| Application Form and File Contents. | DD10657 | Licensing Section, 3 Spilman Street, Carmarthen |
| | | |
| | | |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**PWYLLGOR TRWYDDEDU**
**19/02/18**

**PWNC A PHWRPAS**
**Miss Claire Louise Whitehead**
**Cais i adnewyddu trwydded Yrru Ddeuol Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat**

## ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

**Caniatáu cais Miss Whitehead gyda rhybudd terfynol ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

## RHESYMAU:

**Canllawiau'r Cyngor.**

| | |
|---|---|
| Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Craffu perthnasol | Amherthnasol |
| Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad | Amherthnasol |
| Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad | Amherthnasol |

**Aelod y Bwrdd Gweithredol sy'n Deiliad y Portfolio: Cynghorydd P.M. Hughes**

| Y Gyfarwyddiaeth: Cymunedau | Swydd: | Rhifau Ffôn: Cyfeiriadau E-bost: |
|---|---|---|
| Enw Pennaeth y Gwasanaeth Mr Jonathan Morgan | Pennaeth Dros Dro Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel | 01554 899285 jmorgan@sirgar.gov.uk |
| Awdur yr Adroddiad Justin Power | Uwch-swyddog Trwyddedu | 01267 228932 JHPower@sirgar.gov.uk |

# EXECUTIVE SUMMARY
## Licensing Committee
## 19/02/18

**SUBJECT**

**Miss Claire Louise Whitehead**

**Application to renew a Hackney Carriage/Private Hire Dual Drivers Licence**

**To consider an application from Miss Claire Louise Whitehead of 37 Caeglas, Llanelli to renew her hackney carriage/private hire dual drivers licence.**

**This item was deferred by the Licensing Committee on the 7th December 2017 as Miss Whitehead was unable to attend.**

| | |
|---|---|
| **DETAILED REPORT ATTACHED ?** | **NO** |



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

# IMPLICATIONS

I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :

**Signed: Mr Jonathan Morgan** **Acting Head of Homes and Safer Communities**

| Policy and Crime & Disorder | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Organisational Development | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

# CONSULTATIONS

**I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below**

**Signed: Mr Jonathan Morgan** **Acting Head of Homes and Safer Communities**

**1.Local Member(s):**
**No local member involvement and therefore no consultation necessary.**
**2.Community / Town Council:**
**No Community / Town Council involvement and therefore no consultation necessary.**
**3.Relevant Partners:**
**No Police and Fire Authority involvement and therefore no consultation necessary.**
**4.Staff Side Representatives and other Organisations:**
**There are no other organisations involved and therefore no consultation necessary.**

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**
**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THESE ARE DETAILED BELOW**

| Title of Document | File Ref No. | Locations that the papers are available for public inspection |
|---|---|---|
| Application Form and File Contents. | DD30463 | Licensing Section, 3 Spilman Street, Carmarthen |
| | | |
| | | |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# PWYLLGOR TRWYDDEDU
## 19/02/18

**PWNC A PHWRPAS**
**Mr Jason Owen Jenkins**
**Trwydded Yrru Ddeuol Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat**

**ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**

**Bod Mr Jenkins yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

**RHESYMAU:**

**Canllawiau'r Cyngor.**

| | |
|---|---|
| Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Craffu perthnasol | Amherthnasol |
| Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad | Amherthnasol |
| Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad | Amherthnasol |

**Aelod y Bwrdd Gweithredol sy'n Deiliad y Portfolio: Cynghorydd P.M. Hughes**

| Y Gyfarwyddiaeth: Cymunedau | Swydd: | Rhifau Ffôn: Cyfeiriadau E-bost: |
|---|---|---|
| Enw Pennaeth y Gwasanaeth Mr Jonathan Morgan | Pennaeth Dros Dro Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel | 01554 899285 jmorgan@sirgar.gov.uk |
| Awdur yr Adroddiad Justin Power | Uwch-swyddog Trwyddedu | 01267 228932 JHPower@sirgar.gov.uk |

# EXECUTIVE SUMMARY
# Licensing Committee
# 19/02/18

**SUBJECT**

**Mr Jason Owen Jenkins**

**Hackney Carriage/Private Hire Dual Drivers Licence**

**Mr Jason Owen Jenkins of 12 Llysmorfa, Llangunnor is a licensed hackney carriage/private hire dual driver with this authority.**

| | |
|---|---|
| **DETAILED REPORT ATTACHED ?** | **NO** |



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

# IMPLICATIONS

**I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :**

**Signed: Mr Jonathan Morgan** **Acting Head of Homes and Safer Communities**

| Policy and Crime & Disorder | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Organisational Development | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

# CONSULTATIONS

**I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below**

**Signed: Mr Jonathan Morgan** **Acting Head of Homes and Safer Communities**

**1.Local Member(s):**
**No local member involvement and therefore no consultation necessary.**
**2.Community / Town Council:**
**No Community / Town Council involvement and therefore no consultation necessary.**
**3.Relevant Partners:**
**No Police and Fire Authority involvement and therefore no consultation necessary.**
**4.Staff Side Representatives and other Organisations:**
**There are no other organisations involved and therefore no consultation necessary.**

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**
**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THESE ARE DETAILED BELOW**

| **Title of Document** | **File Ref No.** | **Locations that the papers are available for public inspection** |
|---|---|---|
| Application Form and File Contents. | DD10194 | Licensing Section, 3 Spilman Street, Carmarthen |
| | | |
| | | |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU B

Dydd Mercher, 29 Tachwedd 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Davies (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
P.M. Edwards and J.G. Prosser

**Hefyd yn bresennol fel sylwedyddion**: Y Cynghorwyr R. Evans ac H.I. Jones

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
A. Rees, Swyddog Trwyddedu
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 10.00 am - 4.50 pm (Ymweliad Safle 10.00 a.m. – 11.50 a.m. Siambr, Neuadd y Sir 1.30 p.m. – 4.50 p.m.)**

## 1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 2. CAIS I AMRYWIO TRWYDDED SAFLE, STRADEY PARK HOTEL, FFWRNES, LLANELLI, SA15 4HA

Wedi i'r Is-bwyllgor ymgynnull am 10.00 a.m. yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, gohiriwyd y cyfarfod am 10.10 a.m. er mwyn cynnal ymweliad safle â Gwesty Parc y Strade, Ffwrnes, Llanelli, mewn perthynas â chais a gafwyd am amrywio Trwydded Safle'r Gwesty. Cyrhaeddodd yr Is-bwyllgor y safle am 11.00 a.m. a gwelsant lolfa'r Gwesty ar ben y to, sef y rhan hwnnw o'r safle a fyddai'n destun y cais am amrywio'r drwydded. Gwelsant hefyd o Falconi'r Gwesty leoliad eiddo'r gwrthwynebwyr, ac wedi hynny aethant yn eu blaenau i'r briffordd o flaen yr eiddo yn ‘The Dell’ i weld pa mor agos oedd y datblygiad hwnnw i'r gwesty. Wedi i'r ymweliad â'r safle ddod i ben am 11.20 a.m., ailymgynullodd yr Is-bwyllgor yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Caerfyrddin am 1.30 p.m. i ystyried y cais.

Soniodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wrth bawb oedd yn bresennol am drefn y cyfarfod, gan ddweud wrth yr Is-bwyllgor fod cais wedi dod i law gan Gryphon Leisure am amrywio'r drwydded safle ar gyfer Gwesty Parc y Strade, Ffwrnes, Llanelli fel a ganlyn:-

“Atodiad 3 - 1. Dim ond preswylwyr y gwesty fydd yn cael prynu alcohol yn y lolfa ben to”.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol fod natur yr amrywiad yn benodol i lolfa ben to'r Gwesty yn unig, ac felly byddai amrywio'r drwydded yn galluogi pobl nad ydynt yn breswylwyr i brynu alcohol yn y lolfa. Pe bai'r cais yn cael ei ganiatáu, byddai unrhyw amodau ar yr amrywiad hwnnw ond yn gallu cael eu gwneud ar gyfer y lolfa honno, ac nid ar gyfer gweithrediad cyffredinol y gwesty neu mewn perthynas â Thrwydded Lluniaeth Hwyrnos.

Nododd yr Is-bwyllgor fod y dogfennau canlynol ynghlwm wrth yr adroddiad:-

Atodiad A – copi o'r cais
Atodiad B – copi o'r drwydded safle bresennol
Atodiad C – sylwadau a gyflwynwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu
Atodiad D – sylwadau a gyflwynwyd gan Wasanaethau Iechyd y Cyhoedd
Atodiad E – sylwadau a gyflwynwyd gan bobl eraill.

Yn ychwanegol at y dogfennau uchod cafodd yr Is-bwyllgor, gyda chaniatâd yr holl bartïon, y dogfennau ychwanegol canlynol a gohiriwyd y cyfarfod am 10 munud i roi cyfle i'r holl bartïon ddarllen y deunydd:-

- Cynllun yn nodi lleoliad Gwesty Parc y Strade ac eiddo'r gwrthwynebwyr
- Nodyn yn dwyn y dyddiad 20 Hydref oddi wrth Gryphon Leisure mewn ymateb i'r sylwadau a gafwyd
- Llythyr yn dwyn y dyddiad 23 Tachwedd 2017 oddi wrth Mr E. Jones, Cyngor Sir Caerfyrddin at Gryphon Leisure
- Llythyr yn dwyn y dyddiad 23 Tachwedd 2017 oddi wrth Mr A. Morgan, Cyngor Sir Caerfyrddin at Gryphon Leisure
- Neges e-bost yn dwyn y dyddiad 28 Tachwedd oddi wrth Mr T Byrne, Gryphon Leisure at Is-adran Drwyddedu Cyngor Sir Caerfyrddin
- Neges e-bost yn dwyn y dyddiad 27 Tachwedd 2017 oddi wrth Mr Morris at uned diogelu'r cyhoedd Cyngor Sir Caerfyrddin
- Llythyr yn dwyn y dyddiad 28 Tachwedd 2017 oddi wrth Nia Griffith AS.

Cyfeiriodd cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu at ei sylwadau, fel y nodwyd yn Atodiad C i'r adroddiad, gan ddweud, yn dilyn hynny, ei fod ef wedi ymweld â'r safle ar 8 Tachwedd 2017 ynghyd â Mr A Morgan o Iechyd yr Amgylchedd i drafod y cais â'r ymgeiswyr. O ganlyniad i'r ymweliad hwnnw, ar 23 Tachwedd 2017 ysgrifennodd ef at yr ymgeisydd gan gynnig ychwanegu'r tri amod ychwanegol canlynol (gweler tudalen 5 o'r ddogfennaeth ychwanegol) at drwydded y safle, pe bai'r Is-bwyllgor yn penderfynu caniatáu'r cais am amrywio'r drwydded.

- Yn y lolfa ben to, bydd alcohol ond yn cael ei weini neu'i werthu i bobl sy'n cael pryd bwyd yn y lolfa honno;
- Bydd system teledu cylch cyfyng yn cael ei gosod a'i chynnal yn ardal y lolfa ben to a bydd yn weithredol drwy gydol yr oriau a ganiateir;
- Bydd plant ond cael mynd i'r lolfa ben to yng nghwmni oedolyn sy'n eu goruchwylio.

Yn dilyn y llythyr hwnnw, cafwyd cadarnhad gan Gryphon Leisure ar 28 Tachwedd, 2017 yn derbyn yr amodau ychwanegol hynny (gweler tudalen 9 o'r ddogfennaeth ychwanegol).

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon oedd yn bresennol holi cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu ynghylch ei sylwadau.

Cyfeiriodd cynrychiolydd Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd at ei sylwadau, fel y nodwyd yn Atodiad D i'r adroddiad, a dywedodd ei fod wedi'u gwneud mewn ymateb i ryw 15 o gwynion a gafwyd gan Wasanaethau Iechyd y Cyhoedd ynglŷn â gweithrediad Gwesty Parc y Strade ers 2007. Yn dilyn gwneud y sylwadau hynny, ar 8 Tachwedd 2017 cafodd yntau, ynghyd â Mr E Jones o'r Awdurdod Trwyddedu, gyfarfod gyda'r ymgeiswyr i drafod y cais. O ganlyniad i'r ymweliad


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

hwnnw, ar 23 Tachwedd 2017 ysgrifennodd ef at yr ymgeisydd gan gynnig ychwanegu'r tri amod ychwanegol canlynol (gweler tudalen 7 o'r ddogfennaeth ychwanegol) at drwydded y safle, pe bai'r Is-bwyllgor yn penderfynu caniatáu'r cais am amrywio'r drwydded.

- Ni chaiff unrhyw gwsmeriaid ddefnyddio teras allanol y lolfa ben to ar ôl 11.00 p.m. Pe bai cwsmeriaid eisiau ysmygu ar ôl 11 p.m. yna bydd rhaid iddynt ddefnyddio ardaloedd eraill er mwyn ysmygu;
- Dim ond cerddoriaeth gefndir a gaiff ei chwarae yn y lolfa ben to. Bydd lefelau'r gerddoriaeth gefndir yn cael eu gosod mewn cytundeb ag adain Iechyd yr Amgylchedd;
- Bydd yna gynllun rheoli ar gyfer y lolfa ben to, a bydd Adain yr Amgylchedd a Thrwyddedu yn cytuno ar hwn yn ysgrifenedig cyn iddo gael ei ddefnyddio. Bydd copi o'r cynllun rheoli yn cael ei gadw yn y lolfa ben to er mwyn cyfeirio ato.

Yn ogystal â'r amodau hyn, roedd ei lythyr ar 23 Tachwedd hefyd yn rhestru rhyw 8 o argymhellion yr ystyriai y dylid eu cynnwys yn y cynllun rheoli a grybwyllwyd uchod h.y.

- Bydd y lolfa ben to yn fwyty ciniawa cain ar gyfer oedolion a phlant dros 12 oed,
- Bydd plant ond cael mynd i'r lolfa ben to yng nghwmni oedolyn sy'n eu goruchwylio,
- Ni fydd archebion gan grwpiau mwy na 12 o bobl yn cael eu derbyn yn y lolfa ben to.
- Ni chaiff unigolion na grwpiau archebu nifer fawr o leoedd yn y lolfa ben to ar yr un pryd.
- Mae system awyru ar gael yn y lolfa ben to. Felly, ni chaiff ffenestri a drysau eu hagor at ddibenion awyru. Mae hyn er mwyn lleihau'r sŵn sy'n dianc o'r adeilad.
- Dylid arddangos arwyddion ar ddrysau'r teras yn rhoi gwybod i'r cwsmeriaid fod y teras yn cau am 11 p.m.
- Ni ddylai fod yna fyrddau/cadeiriau ar gael ar y balconi
- Dylid gosod arwyddion ar y balconi yn gofyn i gwsmeriaid gadw lefelau sŵn mor isel â phosibl.

Adroddodd fod Gryphon Leisure, yn dilyn y llythyr hwnnw, wedi rhoi cadarnhad ar 28 Tachwedd 2017 eu bod yn derbyn yr amodau ychwanegol a'r pwyntiau bwled, ac eithrio'r pwynt bwled yn ymwneud â dim byrddau/cadeiriau ar gael ar y balconi, ac roeddent wedi gofyn am i hyn gael ei drafod ymhellach. Fodd bynnag, roedd ef o'r farn y dylai hyn gael ei gadw o fewn y cynllun rheoli.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon a oedd yn bresennol holi cynrychiolydd Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd ynghylch ei sylwadau.

Cafwyd sylwadau gan nifer o drigolion lleol a wrthwynebai'r amrywiad arfaethedig, a ailbwysleisiai'r pwyntiau a nodwyd yn eu sylwadau ysgrifenedig ac a oedd yn cynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:-

1. Roedd cerddoriaeth a oedd yn mynd drwy uchelseinydd i'w chlywed o'r lolfa ben to gan nad oedd camau wedi'u cymryd i leihau'r sŵn sy'n dod ohoni.

2. Roedd y sŵn a oedd yn dod o'r gwesty yn effeithio ar hawliau dynol y trigolion lleol, yn enwedig Erthygl 8 ac Erthygl 1, Protocol 1af.
3. Gellid clywed lleisiau pobl o'r teras ar ben y to tan 11.00 p.m.
4. Roedd y lolfa ben to'n cael ei defnyddio'n fynych gan y cyhoedd e.e. partïon croesawu babanod a the prynhawn ac ati ble roedd alcohol yn cael ei gyflenwi.
5. Pryderon ynghylch sut y byddai bwyd yn cael ei gludo i'r lolfa ben to o'r ceginau sydd ar lawr islaw
6. Diffyg lleoedd parcio yn y gwesty, gyda'r canlyniad fod gwesteion yn parcio eu cerbydau ar y stryd
7. Llygredd golau yn deillio o'r gwesty
8. Methiant systematig gan y gwesty i gadw at ei amodau trwyddedu dros y 10 mlynedd flaenorol
9. Ymddygiad gwrthgymdeithasol gan westeion yn y gwesty yn effeithio ar y gymuned leol
10. Problem gyffredinol yn ymwneud â sŵn o ardaloedd eraill o'r gwesty yn tarfu ar drigolion, e.e. o'r brasserie, oherwydd fod ffenestri a drysau'n cael eu gadael ar agor
11. Gallai caniatáu'r amrywiad y gofynnwyd amdano arwain at gynnydd mewn sŵn a fyddai'n amharu ar drigolion lleol a tharfu pellach arnynt.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon oedd yn bresennol holi'r gwrthwynebwyr, yn unigol, ynghylch eu sylwadau.

Mewn ymateb i'r sylwadau a gafwyd, dywedodd yr ymgeiswyr fod y Gwesty yn cydnabod pryderon y trigolion ac yn ceisio lliniaru'r rheiny ble bynnag yr oedd hynny'n bosibl. Fodd bynnag, un sgil-effaith anffodus a ddeilliai o union natur y busnes oedd y gallai ymddygiad gwrthgymdeithasol ddigwydd o bryd i'w gilydd, naill ai gan ei westeion neu o ganlyniad i'w weithrediadau. Byddai defnydd arfaethedig y lolfa ben to at ddibenion darpariaeth ciniawa cain *a la carte* yn unig. Ni fyddai modd prynu alcohol yn y bar, a byddai pob gwerthiant o'r fath yn cael ei wneud trwy fod gwasanaeth gweinydd yn cael ei ddarparu o farrau eraill ar y safle. Byddai unrhyw gerddoriaeth a fyddai'n cael ei chwarae yn y lolfa ar lefel cerddoriaeth gefndir yn unig, i alluogi pobl i sgwrsio'n naturiol. Derbyniwyd bod angen lleoedd parcio ychwanegol yn y gwesty a bod parcio ar y stryd, ar adegau, yn cael effaith andwyol ar drigolion lleol a bod yr heddlu wedi cael gwybod am yr achosion hynny. Cadarnhawyd na fyddai'r lolfa ben to yn cael ei defnyddio i gynnal partïon.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon oedd yn bresennol holi cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu ynghylch ei sylwadau.

Yn dilyn hynny

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gan yr Is-bwyllgor gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12 i'r Ddeddf Llywodraeth Leol.**

**Ar ôl y toriad ailymgynullodd yr Is-bwyllgor i gyhoeddi ei benderfyniad ac ar ôl ystyried y paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu a'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a chan y Swyddfa Gartref**

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais am amrywio'r Drwydded Safle ar gyfer Gwesty Parc y Strade, Ffwrnes, Llanelli yn amodol ar y canlynol:-**

1. **Yn y lolfa ben to, bydd alcohol ond yn cael ei weini neu'i werthu i bobl sy'n cael pryd bwyd yn y lolfa honno**
2. **Bydd system teledu cylch cyfyng yn cael ei gosod a'i chynnal yn ardal y lolfa ben to a bydd yn weithredol drwy gydol yr oriau a ganiateir.**
3. **Bydd plant ond cael mynd i'r lolfa ben to yng nghwmni oedolyn sy'n eu goruchwylio**
4. **Ni chaiff unrhyw gwsmeriaid ddefnyddio teras allanol y lolfa ben to ar ôl 11 p.m. Pe bai cwsmeriaid eisiau ysmygu ar ôl 11 p.m. yna bydd rhaid iddynt ddefnyddio ardaloedd allanol eraill er mwyn ysmygu.**
5. **Bydd yna gynllun rheoli ar gyfer y lolfa ben to, a bydd Adain yr Amgylchedd a Thrwyddedu yn cytuno ar hwn yn ysgrifenedig cyn i alcohol gael ei werthu i bobl nad ydynt yn breswylwyr yn y gwesty yn y lolfa ben to. Bydd copi o'r cynllun rheoli yn cael ei gadw yn y lolfa ben to er mwyn cyfeirio ato.**

**Nid oedd yr Is-bwyllgor wedi gosod yr amod y gofynnwyd amdano gan Wasanaethau Iechyd y Cyhoedd ynglŷn â chwarae cerddoriaeth gefndirol gan na fyddai modd gorfodi amod o'r fath.**
**Argymhellodd yn hytrach fod y mater hwnnw'n cael ei gynnwys yn y cynllun rheoli.**
Y RHESYMAU

Wrth benderfynu ar y cais, yr oedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Is-bwyllgor;

1. Roedd newidiadau diweddar i Ddeddf Trwyddedu 2003 yn caniatáu i ddeiliad y drwydded ddarparu cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth a recordiwyd yn y lolfa ben to i unrhyw un (p'un a oedd yn breswylydd yn y gwesty ai peidio) rhwng 8 a.m. a 11 p.m.
2. Nid oedd dim yn atal pobl nad oeddent yn breswylwyr rhag yfed alcohol yn y lolfa
3. Nid oedd dim yn atal y lolfa rhag cael ei defnyddio fel bwyty gan bobl nad oeddent yn breswylwyr yn y gwesty cyn 11 p.m.
4. Cafodd Deiliad Trwydded y Safle rybuddiad yn 2010 am gynnal adloniant heb drwydded yn y lolfa ben to.
5. Yn sgil yr adloniant anawdurdodedig hwnnw cafwyd cwynion am sŵn gan drigolion lleol.
6. Roedd yna hanes o gwynion am sŵn ac achosion eraill o niwsans cyhoeddus yn ymwneud â'r safle.
7. Nid oedd yr un o'r awdurdodau cyfrifol yn gwrthwynebu'r cais mewn egwyddor
8. Credai'r awdurdodau cyfrifol y gellid delio'n ddigonol ag unrhyw niwsans cyhoeddus a fyddai'n codi o ganiatáu'r cais trwy osod amodau ychwanegol penodol ar y drwydded a defnyddio pwerau statudol eraill gan Wasanaethau Iechyd y Cyhoedd.
9. Cytunodd yr ymgeiswyr ar amodau ychwanegol y drwydded a roddwyd ymlaen gan yr awdurdodau cyfrifol

Roedd yr Is-bwyllgor wedi rhoi pwys ar farn yr Awdurdodau Cyfrifol, gan fod rheidrwydd cyfreithiol arno i wneud hynny.

Gwelodd yr Is-bwyllgor fod tystiolaeth y trigolion lleol, er yn gredadwy ac yn argyhoeddi, yn annigonol i gyfiawnhau mynd yn groes i farn yr awdurdodau cyfrifol ar y pwynt hwn.

Roedd yr Is-bwyllgor yn cydnabod bod yn rhaid i'w benderfyniad gael ei seilio ar dystiolaeth wirioneddol, ac nad oedd pryderon ac ofnau ynghylch yr hyn a allai ddigwydd pe caniateid y cais, lle nad oedd tystiolaeth o'r fath i'w hategu, yn faterion y gallai roi ystyriaeth briodol iddynt.

Ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon y byddai caniatáu'r amrywiad am y rhesymau a osodwyd yn wreiddiol yn y cais wedi tanseilio amcan y drwydded o ran atal niwsans cyhoeddus.

Fodd bynnag, roedd yr Is-bwyllgor yn derbyn tystiolaeth yr awdurdodau cyfrifol y gellid mynd i'r afael â'r materion yn ymwneud â'r posibilrwydd o niwsans cyhoeddus yn sgil gwerthu alcohol yn y lolfa ben to i bobl nad ydynt yn breswylwyr yn y gwesty, a hynny mewn modd priodol a chymesur, trwy osod amodau ychwanegol ar y drwydded y cytunwyd arnynt rhwng yr awdurdodau cyfrifol a'r ymgeiswyr, a defnyddio pwerau cyfreithiol ar wahân gan Wasanaethau Iechyd y Cyhoedd i fynd i'r afael â niwsans statudol.

Felly roedd y Pwyllgor yn fodlon;

1. Bod caniatáu'r cais yn amodol ar amodau ychwanegol y drwydded, fel y cytunwyd arnynt, yn briodol er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.
2. Bod yr amodau hynny yn ymateb cymesur i'r materion a nodwyd yn y dystiolaeth.
3. Na fyddai caniatáu'r cais ar sail hyn yn tanseilio'r amcanion trwyddedu.

Nododd yr Is-bwyllgor fod gan y cais y posibilrwydd o effeithio ar hawliau dynol y trigolion, yn enwedig Erthygl 8 ac Erthygl 1, Protocol 1af. Fodd bynnag, nid oedd y rheiny'n hawliau absoliwt ac roedd y Pwyllgor yn fodlon, ar sail tystiolaeth yr awdurdodau cyfrifol, bod yr amodau ychwanegol a roddir ar y drwydded yn ddigonol i amddiffyn yr hawliau hynny.

Er gwaethaf yr uchod, roedd yr Is-bwyllgor yn pryderu am yr effaith yr oedd y gwesty yn ei chael ar drigolion lleol a byddai felly'n annog perchnogion y gwesty i weithio'n agos gyda Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd a thrigolion lleol i fynd i'r afael â'r materion hynny.

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU B

Dydd Iau, 25 Ionawr 2018

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd H.I. Jones (Yn y Gadair)

**Y Cynghorwyr:** P.M. Edwards, W.T. Evans.

**Hefyd yn bresennol fel sylwedyddion**: Y Cynghorydd J.G. Prosser

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol;
K. Byrne, Cyfreithiwr Cynorthwyol;
A. Rees, Swyddog Trwyddedu;
K. Smith, Swyddog Trwyddedu;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Siambr, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin – 10:00am - 11:25am**

**[SYLWER: Yn absenoldeb y Cynghorydd A. Davies, Cadeirydd Is-bwyllgor B, enwebwyd a phenodwyd y Cynghorydd H.I Jones yn Gadeirydd].**

## 1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 2. CAIS AM DRWYDDED SAFLE - CO-OP, HEOL FFYNNON JOB, TRE IOAN, CAERFYRDDIN SA31 3PY

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wybodaeth i bawb a oedd yn bresennol am drefn y cyfarfod, a hysbysodd fod cais wedi dod i law gan Co-operative Group Food Ltd. am drwydded safle ar gyfer Co-op, Heol Ffynnon Job, Tre Ioan, Caerfyrddin i ganiatáu'r canlynol:

Cyflenwi Alcohol:- Dydd Llun i ddydd Sul 06:00 – 23:00.

Nododd yr Is-bwyllgor fod y dogfennau canlynol ynghlwm wrth yr adroddiad:-

Atodiad A - copi o'r cais gwreiddiol a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd;
Atodiad B - sylwadau'r Awdurdod Trwyddedu;
Atodiad C - sylwadau Heddlu Dyfed-Powys;
Atodiad D - sylwadau gan bobl eraill.

Nid oedd yr awdurdodau cyfrifol eraill wedi gwneud unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r cais.

Gyda chytundeb yr holl bartïon, dosbarthwyd copïau o'r dogfennau ychwanegol i'r Is-bwyllgor, a oedd yn cynnwys cynllun o'r safle arfaethedig. Ystyriwyd gan yr Is-bwyllgor bod y ddogfen wedi'i derbyn cyn clywed gan y partïon.

Yna cyflwynwyd sylwadau i'r Is-bwyllgor gan bedwar barti â buddiant a oedd yn gwrthwynebu rhoi'r drwydded safle am y rhesymau a nodwyd yn Atodiad D.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi'r gwrthwynebwyr ynghylch eu sylwadau.

Yna cyflwynwyd sylwadau i'r Is-bwyllgor gan yr ymgeisydd am drwydded safle a nodwyd yn Atodiad A ac ymatebwyd i'r pryderon a'r materion a godwyd.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi'r ymgeisydd ynghylch y sylwadau a wnaed.

**Yna PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gan yr Is-bwyllgor gynnal sesiwn breifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A y Ddeddf Llywodraeth Leol.**

Ar ôl y toriad ailymgynullodd yr Is-bwyllgor i gyhoeddi ei benderfyniad ac ar ôl ystyried y paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu a'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a chan y Swyddfa Gartref

**PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a oedd wedi ei rhoi gerbron yr Is-bwyllgor, fod y cais yn cael ei ganiatáu, a hynny'n unol â'r amodau trwyddedu ychwanegol yr oedd yr ymgeisydd a'r heddlu wedi cytuno arnynt.**

**RHESYMAU:-**

Wrth benderfynu ar y cais, yr oedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Is-bwyllgor;

1. Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth o droseddau ac anhrefn sylweddol mewn perthynas ag alcohol yn ardal y safle arfaethedig;

2. Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth o unrhyw fethiannau sylweddol gan yr ymgeiswyr o ran cydymffurfio â deddfau trwyddedu mewn safleoedd eraill;

3. Nid oedd yr un o'r awdurdodau cyfrifol yn gwrthwynebu'r cais;

4. Roedd yr heddlu'n fodlon bod amodau'r drwydded y cytunwyd arnynt gyda'r ymgeisydd yn ddigonol er mwyn hybu'r amcanion trwyddedu.


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

Roedd yr Is-bwyllgor yn rhoi pwys ar farn yr awdurdodau cyfrifol a'r absenoldeb o unrhyw wrthwynebiadau ganddynt.

Roedd yr Is-bwyllgor yn derbyn bod y gwrthwynebwyr lleol yn ddiffuant yn eu pryderon ac roeddent yn deall pam. Fodd bynnag, roedd yr Is-bwyllgor yn gyfyngedig o dan y gyfraith o ran yr hyn y gallent ei ystyried ai peidio. Ymhellach, nid oedd yr Is-bwyllgor yn gallu ystyried materion o ran angen a'r effaith ar fusnesau eraill. Yn yr un modd, ni allai'r Is-bwyllgor ragweld y broses gynllunio na'i dyblygu.

Yr oedd yr Is-bwyllgor yn cydnabod bod yn rhaid i'w benderfyniad gael ei seilio ar dystiolaeth wirioneddol, ac nad oedd pryderon nac ofnau ynghylch yr hyn a allai ddigwydd pe caniateid trwydded, lle nad oedd tystiolaeth o'r fath i'w hategu, yn faterion y gallai roi ystyriaeth briodol iddynt. Yn yr un modd, ni allai'r Is-bwyllgor ystyried materion o ran 'angen' na'r ffynonellau alcohol eraill a oedd yn yr ardal.

Wrth ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd, ni allai'r Is-bwyllgor weld unrhyw reswm i wrthod y cais ar sail y gyfraith. Felly, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod caniatáu'r cais, yn unol â'r amodau hynny y cytunwyd arnynt gan yr ymgeisydd a'r heddlu, yn briodol o ran amcanion trwyddedu, a bod yr amodau ychwanegol y cytunwyd arnynt yn gymesur.

| | |
|---|---|
| ______________________ | ________________ |
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU A

Dydd Mawrth, 12 Rhagfyr 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.M. Charles (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
A.L. Fox and D.E. Williams

**Hefyd yn bresennol fel sylwedyddion**: Y Cynghorwyr F.Akhtar ac J. Prosser

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
A. Rees, Swyddog Trwyddedu
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 10.00 - 10.50 am**

## 1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiannau personol.

## 2. CAIS AM DRWYDDED SAFLE - BOLEYN'S BISTRO, 13 OLD CASTLE ROAD, LLANELLI SA15 2SL.

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wybodaeth i bawb oedd yn bresennol am drefn y cyfarfod, a hysbysodd yr Is-bwyllgor fod cais wedi dod i law am Drwydded Safle ar gyfer Boleyn’s Bistro, 13 Heol yr Hen Gastell, Llanelli, SA15 2SL i ganiatáu'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyflenwi Alcohol / Cerddoriaeth a recordiwyd | Dydd Llun – Dydd Sadwrn 12:00 – 00:00<br>Dydd Sul 12:00 – 23:00 |
| Oriau Agor | Dydd Llun – Dydd Sadwrn 12:00 – 00:30<br>Dydd Sul 12:00 – 23:30 |

Nododd yr Is-bwyllgor fod y dogfennau canlynol ynghlwm wrth yr adroddiad:-

- Atodiad A – Copi o'r cais
- Atodiad B - Sylwadau'r Awdurdod Trwyddedu
- Atodiad D – Sylwadau Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd
- Atodiad B – Sylwadau Heddlu Dyfed-Powys

Yn ogystal â'r uchod, cafodd yr Is-bwyllgor, yn dilyn cytundeb yr holl bartïon oedd yn bresennol, y dogfennau ychwanegol canlynol:

- Cynllun yn dangos lleoliad y safle
- Llythyr dyddiedig 11 Rhagfyr, 2017 gan Mr A Morgan, Cyngor Sir Caerfyrddin at yr Ymgeisydd

- Dwy neges e-bost dyddiedig 11 Rhagfyr, 2017 gan yr ymgeisydd at yr Awdurdod Trwyddedu.

Cyfeiriodd cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu at ei sylwadau ysgrifenedig, fel y nodwyd yn Atodiad B i'r adroddiad, gan ddweud, yn dilyn hynny, ei fod ef a Mr A Morgan o Iechyd yr Amgylchedd, wedi ymweld â'r safle ar 28 Tachwedd, 2017 i drafod y cais gyda'r ymgeisydd. O ganlyniad i'r ymweliad hwnnw, roedd Mr Morgan wedi ysgrifennu at yr ymgeisydd gan gynnig ychwanegu'r ddau amod canlynol at y Drwydded Safle, petai'r Is-bwyllgor yn penderfynu caniatáu'r cais:-

- Bydd cwsmeriaid yn defnyddio'r iard yn y cefn yn unig yn fan ysmygu yn yr awyr agored,
- Ni fydd unrhyw gerddoriaeth yn mynd drwy uchelseinydd mewn unrhyw fannau allanol.

Yn ogystal â'r amodau uchod, roedd Mr Morgan hefyd wedi cyfeirio at yr elfen o'r cais oedd yn gofyn am ganiatâd i chwarae cerddoriaeth a recordiwyd ac wedi awgrymu i'r ymgeisydd ei bod yn tynnu'r elfen honno yn ôl o'r cais ar y sail bod chwarae cerddoriaeth gefndir yn cael ei ganiatáu i safleoedd trwyddedig o dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Roedd yr ymgeisydd, mewn neges e-bost dyddiedig 11 Rhagfyr, wedi cadarnhau ei bod yn cytuno â'r amodau arfaethedig ac wedi tynnu'n ôl yr elfen o'i chais yn ymwneud â cherddoriaeth a recordiwyd.

Dywedodd cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu fod yr ymgeisydd, mewn neges e-bost dyddiedig 11 Rhagfyr, hefyd wedi cadarnhau ei bod yn derbyn yr 20 o amodau trwyddedu a awgrymwyd gan Heddlu Dyfed-Powys.

Dywedodd cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu, i gloi, er ei fod yn argymell cynnwys yr amodau awgrymedig a gynigiwyd gan Wasanaethau Iechyd y Cyhoedd a Heddlu Dyfed-Powys yn y Drwydded Safle, y dylai'r Is-bwyllgor, wrth ystyried y cais, roi sylw i sylwadau dienw a oedd wedi dod i law yn gwrthwynebu'r cais ar sail sŵn ac aflonyddwch yn sgil cerddoriaeth uchel a chwsmeriaid meddw.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu ynghylch ei sylwadau.

Cyfeiriodd cynrychiolydd Heddlu Dyfed-Powys at ei sylwadau a nodwyd yn Atodiad B i'r adroddiad, gan gadarnhau bod yr ymgeisydd wedi cytuno i gynnwys amodau rhif 1-20 a awgrymwyd ganddo.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi cynrychiolydd yr Heddlu ynghylch ei sylwadau.

Cyfeiriodd cynrychiolydd Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd at ei sylwadau ysgrifenedig a nodwyd yn Atodiad C, a'i lythyr atodol dyddiedig 23 Tachwedd, gan gadarnhau, o ganlyniad i gwynion di-sail blaenorol a oedd wedi dod i law mewn perthynas â'r safle, ei fod yn argymell cynnwys y ddau amod uchod yn y Drwydded Safle. Cadarnhaodd hefyd gan fod chwarae cerddoriaeth gefndir rhwng 8:00 a.m. a 11:00 p.m. yn cael ei ganiatáu o dan ddadreoleiddio Deddf Trwyddedu 2003 fod yr ymgeisydd wedi cytuno i dynnu'r elfen honno o'i chais yn ôl. Roedd yr ymgeisydd hefyd wedi cytuno i gynnwys y ddau amod trwyddedu awgrymedig.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi cynrychiolydd Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd ynghylch ei sylwadau.

Dywedodd yr ymgeisydd, mewn ymateb i'r sylwadau trydydd parti, mai un o'r materion oedd yn deillio o hynny oedd y ffaith ei bod yn caniatáu i'w chwsmeriaid ddod â'u halcohol eu hunain i'r safle. Gan fod hynny yn golygu nad oedd yn gallu rheoli faint o alcohol sy'n cael ei yfed, y farn oedd y byddai'r cais am Drwydded Safle yn unioni'r sefyllfa honno. Cadarnhaodd ei bwriad i gynnig profiad bistro o safon uchel a byddai'r safle yn agor ar ddiwrnodau pan oedd archebion wedi cael eu gwneud yn unig. Mewn perthynas â sylwadau Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd cadarnhaodd ei bod yn cytuno â'r amodau awgrymedig a'i bod wedi tynnu'r elfen yn ymwneud â cherddoriaeth a recordiwyd yn ôl o'i chais.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi'r ymgeisydd ynghylch ei sylwadau.

Ar hynny

**PENDERFYNODD yr Is-bwyllgor YN UNFRYDOL gynnal sesiwn breifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16, Atodlen 12A o'r Ddeddf Llywodraeth Leol.**

**Ar ôl y toriad ailymgynullodd yr Is-bwyllgor i gyhoeddi ei benderfyniad ac ar ôl ystyried y paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu a'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a chan y Swyddfa Gartref**

**PENDERFYNWYD bod y cais am Drwydded Safle ar gyfer Boleyn's Bistro, 13 Heol yr Hen Gastell, Llanelli i werthu alcohol yn ystod yr oriau y gofynnwyd amdanynt yn cael ei ganiatáu yn amodol ar atodi'r amodau trwyddedu y cytunwyd arnynt rhwng yr ymgeisydd, yr heddlu a gwasanaethau iechyd y cyhoedd i'r drwydded.**

Y RHESYMAU

Wrth benderfynu ar y cais, yr oedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Is-bwyllgor:

1. Nid oedd y safle wedi cael trwydded o'r blaen o dan Ddeddf 2003
2. Nid oedd dim hanes o gamau gorfodi materion trwyddedu yn ymwneud â'r safle
3. Bu cwynion blaenorol ynghylch sŵn yn ymwneud â'r safle gan 1 unigolyn nad oeddent wedi eu cadarnhau
4. Nid oes dim un o'r awdurdodau cyfrifol yn gwrthwynebu caniatáu trwydded ar gyfer gwerthu alcohol
5. Roedd Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd wedi gwneud sylwadau nad oedd y safle yn lleoliad addas ar gyfer trwydded i chwarae cerddoriaeth a recordiwyd
6. Bod yr ymgeisydd wedi tynnu yn ôl ei chais i chwarae cerddoriaeth a recordiwyd ar y safle
7. Bod un sylw dienw wedi cael ei gyflwyno gan aelod arall o'r cyhoedd

Yr oedd yr Is-bwyllgor wedi rhoi pwys ar farn yr awdurdodau cyfrifol.

Yr oedd yr Is-bwyllgor yn cydnabod bod yn rhaid i'w benderfyniad gael ei seilio ar dystiolaeth wirioneddol, ac nad oedd pryderon nac ofnau ynghylch yr hyn a allai

ddigwydd pe caniateid trwydded, lle nad oedd tystiolaeth o'r fath i'w hategu, yn faterion y gallai roi ystyriaeth briodol iddynt.

O ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd iddo, nid oedd rheswm gan yr Is-bwyllgor dros fynd yn groes i farn yr awdurdodau cyfrifol yn yr achos hwn. Yn unol â hynny roedd yn fodlon ar y canlynol:

1. Ei bod yn briodol, er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu, ganiatáu'r drwydded ar gyfer gwerthu alcohol yn amodol ar yr amodau trwyddedu ychwanegol y cytunwyd arnynt gan yr Ymgeisydd, yr Heddlu a Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd.
2. Bod yr amodau hynny yn ymateb cymesur i'r materion a nodwyd yn y dystiolaeth.

____________________________ _____________________
**CADEIRYDD** **DYDDIAD**


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

# PWYLLGOR TRWYDDEDU

**DYDD IAU, 7FED RHAGFYR, 2017**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E.G. Thomas [Cadeirydd]

**Y Cynghorwyr:**
J.M. Charles, A. Davies, C.A. Davies, P.M. Edwards, R.E. Evans, W.T. Evans, A.L. Fox, J.K. Howell, H.I. Jones a D.E. Williams

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**

| | | |
|---|---|---|
| Mr J. Power | - | Uwch-swyddog Trwyddedu |
| Mr R. Edgecombe | - | Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol |
| Mr M. Heath | - | Swyddog Trwyddedu |
| Mrs M. Evans Thomas | - | Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

Yn cynrychioli Awdurdod yr Heddlu: Mr M. Price

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin : 10.00 a.m. - 10.35 a.m.**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr F. Akhtar, J. Prosser a J.E. Williams.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| E.G. Thomas | 6 - Cais am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat - Miss Tracy Louise Davies | Mae'r ymgeisydd yn byw yn ei ward. |

## 3. TRWYDDED CERBYD HURIO PREIFAT

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mrs Jacqueline Elizabeth Clarke of 4 Clos Parc Bigyn, Llanelli am gael ei heithrio o Amodau 5a a 5b o Amodau'r Cyngor ar gyfer Trwyddedu Cerbydau Hurio Preifat ar gyfer ei Cherbyd Hurio Preifat PH580, sef Renault Trafic rhif cofrestru YK61 DDZ.

Gan ei bod yn bwriadu defnyddio'r cerbyd hwn ar gyfer gwasanaeth cludo pobl i/o feysydd awyr/porthladdoedd a gwasanaeth hurio dethol yn unig, yr oedd Mrs Clarke wedi gofyn am gael ei heithrio o Amodau 5a a 5b o Amodau'r Cyngor ar gyfer Trwyddedu Cerbydau Hurio Preifat, sef na fyddai'n ofynnol iddi arddangos sticeri ar y drysau na phlât trwyddedu ar y bympar ôl.

Petai'r Pwyllgor Trwyddedu yn cytuno i ganiatáu i Mrs Clarke gael ei heithrio, yna byddai'r amodau canlynol yn cael eu rhoi ynghlwm wrth y Drwydded:-

- bod y Renault Trafic PH580 trwyddedig sydd â'r rhif cofrestru YK61 DDZ yn cael ei eithrio o amodau trwyddedu 5a a 5b tra bo'n cael ei ddefnyddio at

ddibenion gwasanaeth cludo i/o feysydd awyr/porthladdoedd a gwasanaeth hurio dethol, fel yr amlinellwyd yn y cais gan Mrs Clarke;
- Petai'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer hurio preifat, yn hytrach na gwasanaeth cludo i/o feysydd awyr a phorthladdoedd a gwasanaeth hurio dethol, bod yr ymgeisydd yn rhoi gwybod ar unwaith i'r Awdurdod Trwyddedu a bod yr eithriad yn darfod o ran dibenion hurio o'r fath;
- Bod y cerbyd yn arddangos disg adnabod ar y ffenestr flaen a'r ffenestr ôl, fel y pennwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu.

**PENDERFYNWYD caniatáu cais Mrs Jacqueline Elizabeth Clarke am gael ei heithrio o Amodau 5a a 5b o Amodau'r Cyngor ar gyfer Trwyddedu Cerbydau Hurio Preifat mewn perthynas â'i Renault Trafic PH580, rhif cofrestru YK61 DDZ.**

## 4. CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MISS CLAIRE LOUISE WHITEHEAD

Dywedodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu wrth y Pwyllgor fod Miss Whitehead wedi cysylltu â swyddogion i esbonio nad oedd modd iddi fod yn bresennol yn y cyfarfod heddiw ac i ofyn am i'r mater gael ei ohirio i'w ystyried yn y cyfarfod nesaf er mwyn iddi allu bod yn bresennol.

**PENDERFYNWYD gohirio ystyried cais Miss Claire Louise Whitehead am adnewyddu ei Thrwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat tan y cyfarfod nesaf.**

## 5. TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MR WILLIAM HUGH RUDLAND

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Mr William Hugh Rudland o 90 Heol Bryngwili, Cross Hands, Llanelli yn meddu ar Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat gan yr Awdurdod a bod mater wedi codi ynghylch ei drwydded.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Rudland ynghylch y mater hwnnw a chafodd sylwadau gan gynrychiolydd yr heddlu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod Mr Rudland yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, fod Mr William Hugh Rudland yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

<u>Y Rhesymau</u>

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, roedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

## 6. CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MISS TRACY LOUISE DAVIES

[NODER: Gan ei fod wedi datgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, gadawodd y Cynghorydd E.G. Thomas y Siambr cyn i'r Pwyllgor ystyried y mater a


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

phenderfynu arno.  Cafodd y cyfarfod ei gadeirio gan y Cynghorydd D.E. Williams, Is-gadeirydd, yn absenoldeb y Cadeirydd.]

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y cais gan Miss Tracy Louise Davies o 1 Maesyderi, Llandeilo, am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Miss Davies ynghylch ei chais.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Miss Davies yn cael ei ganiatáu a'i bod yn cael rhybudd ynghylch ei hymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, ganiatáu cais Miss Tracy Louise Davies am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddi ynghylch ei hymddygiad yn y dyfodol.**

Y Rhesymau

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, roedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

Ar hynny ailymunodd y Cadeirydd â'r cyfarfod.

## 7. CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MR JAMES NEIL HAUGHEY

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y cais gan Mr James Neil Haughey o Rodfa Glyndwr, Caerfyrddin am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Haughey ynghylch ei gais.  Daeth chwaer Mr Haughey gydag ef i'r Pwyllgor, a rhoddodd hithau anerchiad i'r Pwyllgor a oedd yn tystio i gymeriad ei brawd er mwyn cefnogi ei gais.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Haughey yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNODD Y PWYLLGOR YN UNFRYDOL, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, ganiatáu cais Mr James Neil Haughey am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

Y Rhesymau

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, roedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

## 8. COFNODION CYFARFOD YR IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU ‘A’ A GYNHALIWYD AR 17EG HYDREF, 2017

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor Trwyddedu 'A' a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2017 yn gofnod cywir.**

## 9. COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 25AIN HYDREF, 2017

Cyfeiriwyd at y ffaith fod enw Mrs K. Byrne, Cyfreithiwr Cynorthwyol, yn eisiau o'r rhestr o swyddogion a oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

Tynnwyd sylw at y ffaith y dylai enw'r ymgeisydd yng nghofnod tri ddarllen fel Mr John Charles Griffiths bob tro.

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2017 yn gywir, yn amodol ar y newidiadau uchod.**

| | |
|---|---|
| ____________________ | ____________________ |
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales